# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2024

Amser: 09.30 - 15.16

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/14199) yn:

http://senedd.tv/cy/14199

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Paul Davies AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Alun Davies AS (yn lle Hannah Blythyn AS)<br>Luke Fletcher AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig<br>Matt Buckley, United Tech and Allied Workers (UTAW-CWU)<br>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru<br>Matt Davies, Ada Lovelace Institute<br>Professor Lina Dencik, Goldsmiths, Prifysgol Llundain<br>Dr Richard Irvine, Llywodraeth Cymru<br>Felix Milbank, Federation of Small Businesses (FSB) |

| | |
|---|---|
| | Yr Athro Alun Preece, Prifysgol Caerdydd<br>Yr Athro Rossi Setchi, Prifysgol Caerdydd<br>Klaire Tanner, CreuTech<br>Paul Teather, AMPLYFI<br>Ceri Williams, TUC Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Robert Donovan (Clerc)<br>Rachael Davies (Ail Glerc)<br>Nicole Haylor-Mott (Dirprwy Glerc)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd)<br>Sara Moran (Ymchwilydd)<br>Madelaine Phillips (Ymchwilydd)<br>Lucy Morgan (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hannah Blythyn AS. Roedd Alun Davies AS yn dirprwyo ar gyfer eitemau 6 i 8.

1.3 Mynychodd Luke Fletcher AS eitemau 1 i 4 ac anfonodd ymddiheuriadau am weddill y cyfarfod.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

**2.1 Cydsyniad Deddfwriaethol: Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg**

**2.2 Y diwydiant twristiaeth**

**2.3 Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) (Estyn i'r Swistir a Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2024**

**2.4 Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd**

**2.5 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Diwygio) 2024**

**2.6 Yr Economi Sylfaenol**

## 3 Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru - Panel 1 - Arbenigwyr annibynnol

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Matt Davies (Sefydliad Ada Lovelace), yr Athro Rossi Setchi (Prifysgol Caerdydd), a'r Athro Alun Preece (Hwb Caerdydd Canolfan Hartree, Prifysgol Caerdydd).

## 4 Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru - Panel 2 - Busnes

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Paul Teather (AMPLYFI), Klaire Tanner (CreuTech), a Felix Milbank (Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru).

## 5 Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru - Panel 3 - Gweithlu

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Lina Dencik (Prifysgol Goldsmiths Llundain), Matt Buckley, (United Tech and Allied Workers, CWU), a Ceri Williams (TUC Cymru).

## 6 Craffu cyffredinol ar waith y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

6.2 Cytunodd y Dirprwy Brif Weinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth benodol i'r Pwyllgor ynghylch gweithredu'r Dull Rheoli Maetholion Gwell.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor y Cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 8 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 3 i 6.

## 9 Cydsyniad deddfwriaethol: Y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg - trafod yr adroddiad drafft

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft mewn egwyddor.

9.2 Nododd y Pwyllgor ei fod yn aros am ymateb i'w lythyr (a nodir yn Eitem 2.1), a chytunodd i ystyried diweddariadau pellach a chwblhau'r adroddiad drwy ohebiaeth.

## 10 Blaenraglen waith

10.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y Flaenraglen Waith ar gyfer tymor y gwanwyn 2025, a chytunwyd ar y meysydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor fwrw ymlaen â hwy.

10.2 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu a chytunodd ar gylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad newydd i Lwybrau Prentisiaeth.